# *ADRAN ADDYSG GWYNEDD*

# *MATERION STAFFIO PAN FO TYWYDD GARW 2023-24*


| ADRAN | CYNNWYS |
|---|---|
| ADRAN 1 | Egwyddorion Cyffredinol |
| ADRAN 2 | Amodau Gwaith |
| ADRAN 3 | Rhesymolrwydd |
| ADRAN 4 | Adolygu'r Polisi |

## 1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

1.1. Nod y Cyngor yw sicrhau parhad busnes yn ystod tywydd garw gan gydnabod trafferthion y gellir eu hwynebu wrth geisio cynnal gwasanaeth.

1.2. Yn ystod cyfnod o dywydd garw bydd disgwyl i aelodau o staff fod yn hyblyg ac ymgymryd â dyletswyddau rhesymol tu allan i ddyletswyddau dydd i ddydd er mwyn cynnal gwasanaethau allweddol i'r cyhoedd.

Yn ystod cyfnod o dywydd garw, disgwylir i weithwyr fynychu eu man gwaith arferol. Cyfrifoldeb y gweithiwr unigol yw sicrhau trefniadau teithio i'r man gwaith, ac oddi yno, ac mae disgwyliad iddo/iddi wneud pob ymdrech posibl i wireddu hyn o fewn cyd-destun diogelwch personol a diogelwch eraill.

1.3. Caiff ei ystyried yn ddisgwyliedig i weithwyr gerdded pellter rhesymol fel rhan o'i daith i'w man gwaith mewn sefyllfa o dywydd garw.

## 2. AMODAU GWAITH

2.1 Pan fydd ysgol yn cymryd penderfyniad i anfon gweithwyr adref o'r gwaith neu i'w cyfarwyddo i beidio teithio i'w man gwasanaeth, yna caniateir cyflog llawn am y diwrnod hwnnw ac fe gofnodir yr oriau gwaith safonol ar gyfer y cyfnod o absenoldeb arbennig.

2.2 Mewn amgylchiadau pan fo tywydd garw yn golygu na all gweithiwr unigol fynychu'r man gwaith, yna bydd angen iddo/i ef/hi a'i r/rheolwr gytuno ar un o'r canlynol;

- gweithio o adref os yn ymarferol bosib
- colli cyflog
- gweithio oriau ychwanegol
- cymryd gwyliau blynyddol

(Pa un bynnag yw'r mwyaf priodol)

2.3 Gellir caniatáu i weithiwr unigol fynd adref ynghynt na'r arfer mewn amgylchiadau o dywydd garw, ple bo diogelwch y gweithiwr neu ddibynyddion yn y fantol. Mae'n rhaid cael caniatâd rheolwr llinell ymlaen llaw a bydd yn rhaid cytuno ar ba un o'r dewisiadau yn 2.2 sydd i'w gweithredu o dan y fath amgylchiadau.

2.4 Bydd methiant i hysbysu rheolwr nad yw'n bosibl mynychu'r man gwaith yn cael ei ystyried fel absenoldeb heb awdurdod h.y. nid yw darpariaeth 2.2 yn berthnasol mewn sefyllfa o'r fath.

2.5 Bydd methiant i dderbyn caniatâd rheolwr i adael y gwaith yn fuan yn cael ei ystyried fel absenoldeb heb awdurdod h.y. nid yw darpariaeth 2.2 yn berthnasol mewn sefyllfa o'r fath.

## 3. RHESYMOLRWYDD

3.1 Bydd holl gynnwys y polisi hwn yn ddarostyngedig i brawf rhesymolrwydd.

## 4. ADOLYGU'R POLISI

4.1 Bydd cynnwys y polisi hwn yn cael ei adolygu yn flynyddol.